

Llawlyfr Ysgol Bro Dyfrdwy



“Yn y llaw fach, mae’r holl fyd”

2021 - 2022



YSGOL BRO DYFRDWY

ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk

CROESO

Annwyl rieni a gwarcheidwaid

Mae'n bleser gen i gyflwyno Llawlyfr Ysgol Bro Dyfrdwy i'ch sylw. Gobeithiaf y bydd yn ganllaw defnyddiol i chi: dyna yw ei fwriad ta beth!

Ysgol ardal yw Ysgol Bro Dyfrdwy ac mae'n ysgol gynradd sirol, wledig, gymunedol a naturiol Gymraeg. Mae hefyd yn ysgol ddyddiol ddwyieithog a chydaddysgol sy'n darparu addysg i blant o dair i un-ar-ddeg oed.

Ein nôd yw creu ysgol gyfeillgar sy'n rhoi pob annogaeth i'ch plentyn ddysgu a datblygu hyd eithaf ei allu yn ystod ei amser gyda ni. Hoffwn ystyried ein hysgol yn fath o deulu estynedig – teulu cyfeillgar a hapus lle mae'r plentyn yn mwynhau dysgu. Ceisiwn sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel a braf ble caiff eich plentyn ei werthfawrogi a'i drin fel unigolyn gan ei annog i fod yn aelod cyfrifol o'r ysgol a'r gymdeithas leol ac i dyfu'n berson sy'n ystyriol o eraill a'i amgylchedd o'i gwmpas. Amcanwn i roi'r addysg orau a'r profiadau gorau posib i'n disgyblion a cheisiwn wella ein dulliau dysgu yn ddyddiol!

Mae perthynas agos rhwng y cartref a'r ysgol yn bwysig. Gwyddom y cawn bob cydweithrediad gennych yn hynny o beth. Os oes gennych unrhyw gwestiynnau neu ymholiadau pellach ynglŷn ag unrhyw fater, cofiwch gysylltu â mi ar unwaith.

Croeso cynnes i'ch plentyn i'r ysgol. Gobeithiwn y caiff flas ar y gwaith a'r chwarae.

Yr eiddoch yn gywir

Bethan Fell
Pennaeth

Cynnwys:

1. MANYLION YMARFEROL.....	5
1.1 CYSYLLTU.....	5
1.2 STAFF YR YSGOL.....	5
1.3 AMSEROEDD.....	6
1.4 DYDDIADAU TYMHOROL A GWYLIAU YSGOL 2018-19.....	6
1.5 ORIAU DYSGU/EIN GWERTHOEDD/CLWB BRECWEST.....	5
2. POLISIAU.....	7
2.1 POLISI DERBYN PLANT I'R YSGOL.....	8
2.2 POLISI CODI TÂL AR RIENI (CRYNODEB).....	8
2.3 POLISI ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG.....	9
2.4 POLISI AMDDIFFYN PLANT.....	10
2.5 POLISI GWRTH-FWLIO.....	10
3. AMCANION CYFFREDINOL YR YSGOL.....	10
4. YR YSGOL A'R CARTREF.....	9
4.1 CYTUNDEB RHWNG YR YSGOL A'R CARTREF.....	9
4.2 GWAITH CARTREF/ CYNLLUN ENCOMPAS.....	10
5. Y DREFN GWYNO.....	11
5.1 CWYNO AM Y CWRICWLWM.....	11
5.2. CWYNO AM Y CORFF LLYWODRAETHU.....	11
6. CYNNWYS A THREFNIADAETH Y POLISI ADDYSG RHYW.....	11
7. ADDYSG GREFYDDOL A CHYDADDOLI.....	12
8. ETHOS A GWERTHOEDD.....	12
8.1 AMCANION.....	12
8.2 CYNLLUNIAU AR WAITH.....	13
8.2.1 YSGOL IACH.....	13
8.2.2 YSGOL ECO.....	14
8.2.3 MASNACH DEG.....	14
9. GOFAL BUQEILIOL.....	15
9.1 Y CYNGOR YSGOL.....	15

9.2 CYDRADDOLDEB HIL IOL.....	15
9.3 DISGYBLAETH.....	15
9.4 CYSWLLT Â'R CARTREF A'R YSGOL/ Y GYMDEITHAS RH IENI AC ATHRAWON.....	15
9.5 IECHYD A DIOGELWCH.....	15
9.6 MEDDYGOL.....	16
9.7 GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL.....	16
9.8 YMWELIADAU ALLGYRSIOL.....	16
9.9 ADDYSG GORFFOROL.....	17
10. GWISG YSGOL.....	18
11. DEFNYDDIO'R GYMRAEG A'R SAESNEG.....	19
12. CYFLEOEDD CYFARTAL.....	19
13. DISGYBLION AG ANABLEDDAU A'R CYNLLUN HYGYRCHEDD.....	19
14. TROSGWLWYDDO I'R YSGOL UWCHRADD.....	20
15. PRESENOLDEB.....	20
16. RHEOLAU A CHANLLAWIAU.....	22



“Yn y llaw fach, mae'r holl fyd”

1. MANYLION YMARFEROL

1.1 CYSYLLTU

ENW'R YSGOL: YSGOL BRO DYFRDWY,
CYNWYD, Corwen, Sir Ddinbych LL21 OLG

RHIF FFÔN: 01490 412500

E-BOST: ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk

PENNAETH: Bethan Fell

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR: Siân Lloyd-Williams

IS- GADEIRYDD: Delyth Jones

LLYWODRAETHWYR: Anne Williams
Gwen Wynne
Bryn Williams
Llio Davies
Catrin Phillips
Donna Roberts
Sarah Tudor
Eirian Jones
Heledd Rees
Siôn Williams

CLERC Y LLYWODRAETHWYR: Bethan Jones

1.2 STAFF YR YSGOL

ATHRAWON: Mrs Catrin Phillips, Pennaeth Cynorthwyol: (4 diwrnod)

Mr Siôn Williams

Miss Catrin Darlington

Mrs Heledd Rees: 4 diwrnod

Mrs Siân Jones: 3 diwrnod

Mrs Bethan Woods: 3 diwrnod

Mrs Catrin Gwynfor Jones – 3 diwrnod

UWCH CYMORTHYDD DOSBARTH: Mrs Gwenan Lloyd (Meithrin)

CYMHORTHYDDION DOSBARTH: Mrs Emma Newport
Mrs Donna Roberts
Mrs Siân Williams
Mr Aaron Davies
Mrs Rhiannon Edmunds

YSGRIFENYDDES: Mrs Bethan Jones

GOFALWRAIG: Mrs Sandra Owen

GLANHAWYR: Mrs Sandra Owen
Mrs Mandy Jones

COGYDDES: Mrs Pamela Jones

CYMHORTHYDDION CEGIN Mrs Mandy Jones
Mrs Sandra Owen

1.3 AMSEROEDD

SESIWN Y BORE: 9.00 – 12.00

SESIWN Y PRYNHAWN: 1.00 – 3.15

1.4 DYDDIADAU TYMHOROL A GWYLIAU YSGOL 2020-2021

TYMOR YR HYDREF	
02/09/21	Dechrau'r tymor
22/10/21	Diwedd tymor
01/11/21	Hyfforddiant staff
02/11/21	Ysgol yn ail agor
21/12/21	Gwyliau Nadolig
TYMOR Y GWANWYN	
06/01/22	Hyfforddiant Staff
07/01/22	Hyfforddiant Staff
10/01/22	Ysgol yn agor
18/02/22	Hanner Tymor
28/02/22	Ysgol yn ail-agor
08/04/22	Diwedd y tymor
TYMOR YR HAF	
25/04/22	Hyfforddiant Staff
26/04/22	Ysgol yn agor
02/05/22	Gŵyl Banc Mai

27/5/22	Hanner Tymor
06/06/22	Hyfforddiant Staff
07/06/22	Ysgol yn ail agor
20/07/22	Diwedd y tymor

1.5 ORIAU DYSGU

Dyma'r oriau a dreulir yn dysgu gan eithrio'r gwasanaeth boreol, amser cofrestru, amser cinio ac amser chwarae.

Oed	Oriau
Meithrin	13awr
Cyfnod Sylfaen	23.5awr
C.A.2	23.5awr



Ein Gwerthoedd

- Hapusrwydd, a chreu awyrgych bositif yn yr ysgol
- Hybu'r iaith a diwylliant Cymreig
- Gwneud ein gorau glas bob tro
- Datblygu annibynniaeth
- Tyfu'n iach a diogel
- Parchu'r gymuned a'r amgylchedd

Clwb Brecwast

Cynhelir clwb brecwast bob bore yn yr ysgol. Gofynnwn i chi adael i'r ysgol wybod o flaen llaw os y dymunwch i'ch plentyn fynychu'r clwb. Mae'r clwb yn cael ei gynnal yn y neuadd, ac yn agor am 8:00 y bore

2. POLISIAU

2.1 POLISI DERBYN PLANT I'R YSGOL

▫ Mae'r ysgol hon yn gweithredu yn unol â pholisi derbyn Awdurdod Addysg Sir Ddinbych fel â ganlyn:-
Caiff y plant eu derbyn yn rhan amser ym Mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed ac yn llawn amser ym Mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 4 oed.

Mae unrhyw gais derbyn plant a wneir i'r ysgol yn cael ei yrru i'r Adran Derbyn Ysgol yn Neuadd y Sir. Nid oes trosglwyddiadau awtomatig o'r Meithrin i'r Derbyn, a chan mai Awdurdod Addysg Sir Ddinbych yw'r awdurdod derbyn, yr awdurdod fydd yn ystyried y ceisiadau. Rhaid cyfeirio unrhyw gais i'r sir yn gyntaf.

2.2 POLISI CODI TÂL AR RIENI (CRYNODEB)

Codir tâl llawn ar rieni disgyblion:

- am bob gweithgaredd sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol oddigerth i'r hyn sy'n angenrheidiol i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol neu ofynion statudol addysg grefyddol.
- am gostau bwyd a llety ar gyfer gweithgareddau preswyl a drefnir gan yr ysgol neu'r AAL
- os oes difrod i werslyfrau neu offer addysgol sy'n deillio o gamymddygiad disgybl.

Gellir codi tâl yn rhannol:

- am ddifrod i ffenestri neu offer adeiladol ysgol yn deillio o gamymddygiad disgybl.
- am wersi offerynnol cerdd.
- am deithio i wersi nofio

Ni chodir tâl am fwyd a llety disgybl sy'n mynychu cyrsiau i ddibenion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Gyda gweithgareddau dewisiol sy'n digwydd o bryd i'w gilydd yn ystod oriau ysgol, gofynnir am gyfraniadau gan rieni. Hysbysir y rhieni o'r cychwyn mai gwirfoddol yw unrhyw gyfraniad, ond cedwir yr hawl i beidio parhau gydag unrhyw drefniadau os nad oes digon o gyfraniadau wedi dod i law.

Pan fo corff allanol yn trefnu gweithgareddau, gall yr ysgol roi caniatâd i'r disgybl fod yn absennol o'r ysgol a gellir codi tâl llawn. Gellir caniatáu hyd at 10 diwrnod ymhob blwyddyn.

2.3 POLISI ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Ceir polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgol yn unol â deddf gwlad. Mae croeso i chi ei weld ond i chi wneud trefniadau gyda'r Pennaeth yn gyntaf.

NÔD Y POLISI ADY yw:

Sicrhau fod pob plentyn yn datblygu'n gorfforol, emosïynol a deallol yn ôl ei allu.

AMCANION Y POLISI ADY:

Mae'r ysgol yn amcanu i:

- 1) sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i bob disgybl.
- 2) dilyn y Gofynion Statudol
- 3) gweithredu yn unol ag argymhellion a pholisi'r Awdurdod Addysg
- 4) sicrhau fod cyfundrefnau'n bodoli yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anawsterau a all fod yn llesteirio'i addysg
- 5) casglu gwybodaeth gan athrawon a staff eraill i sicrhau y ceir y dealltwriaeth gorau am natur anawsterau'r plentyn
- 6) sicrhau y caiff y ddarpariaeth angenrheidiol ei gwneud ar gyfer disgyblion ag ADY
- 7) ceisio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth rhieni, ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth
- 8) ceisio sicrhau fod y plentyn yn integreiddio gyda gweddill y plant cyhyd ag y bo hynny'n bosibl.

ADNABOD AC ASESU

Cynhelir cyfarfodydd staff dan arweiniad y cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dymhorol i drafod cynnydd pob plentyn. Os oes pryder yn cael ei fynegi ystyrir rhoi'r disgybl hwnnw ar y cam **GWEITHREDU GAN YR YSGOL**. Ceisiwn gefnogi y disgybl o fewn y dosbarth drwy waith gwahanaiaethol. Os bydd y pryder yn cynyddu rhoddir y disgybl ar y cam **GWEITHREDU GAN YR YSGOL A MWY**. Yna cawn gyngor gan wasanaethau cynhaliol yr AALI megis

- y Gwasanaeth Seicolegol Addysgol
- athrawon ymgynghorol sydd a rôl gyffredinnol ynghyd a rôl arbenigol ym meysydd nam ar y clyw, nam ar y golwg, nam corfforol a nam ar y lleferydd
- gwasanaeth lles Addysg.

Caiff Rhaglen Waith Unigol ei baratoi ar gyfer y disgyblion hyn a chaiff ei fonitro'n rheolaidd.

Pan dderbyniwn ddisgybl o ysgol arall, ceisiwn sicrhau fod yr wybodaeth am y disgybl yn cyrraedd yr ysgol mewn da bryd. Yn yr un modd fe fydd yr ysgol hon hefyd yn trosglwyddo gwybodaeth berthnasol i ysgol lle bydd plentyn yn trosglwyddo iddi.

Yn naturiol, mae barn rhieni'n bwysig iawn wrth adnabod anghenion ac mewn unrhyw asesiad o blentyn. Rhoddir pwys ar eu barn a cheisir eu cydweithrediad ymhob achos.

PLANT MEWN GOFAL:

Pennaeth yr ysgol yw'r person sy'n gyfrifol am hyrwyddo a chefnogi addysg y plant sydd yng ngofal yr ysgol, ac am sicrhau eu bônt yn cael mynediad lawn i gwricwlwm yr ysgol.

ASESU AR GYFER DYSGU:

Cynhelir nosweithiau agored tymhorol er mwyn i'r rhieni neu warchodwr weld gwaith eu plant a thrafod eu datblygiad gyda'r athrawon. Mae pob athro ac athrawes yn cadw asesiadau manwl am eu plant ac yn cynllunio'r ffordd ymlaen gyda rhieni neu warchodwr yn ystod y noson agored. Ceisiwn roddi pob cyfle i'r rhieni neu warchodwr weld a thrafod targedau'r plant, ac ychwanegu atynt pe dymunant. Bydd y disgyblion yn trafod, yn cytuno ac yna'n llofnodi'r targedau gyda'r athro wedi'r cyfarfod.

2.4 POLISI AMDDIFFYN PLANT

Mae gan yr ysgol **BOLISI AMDDIFFYN PLANT** sy'n seiliedig ar Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a dilynir y canllawiau ymhob achos.

TREFN DIOGELU PLANT

Mae pob aelod o staff yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n mynychu'r ysgol. Os ceir pryderon ynglyn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosïynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Threfn Diogelu'r Plant y Sir, i sôn am y mater wrth Cyd-gysylltydd Diogelu Plant yr ysgol neu'r Pennaeth, ar unwaith.

Y Pennaeth yw Cyd-gysylltydd Diogelu Plant yr ysgol (a Chyd-gysylltydd Plant Mewn Gofal) sef Bethan Fell. Yn absenoldeb y Pennaeth Mrs Catrin Phillips sydd â chyfrifoldeb ac yn absenoldeb y ddwy Mr Sion Williams sy'n gyfrifol.

2.5 POLISI GWRTH-FWLIO

Mae unrhyw fath o fwlio yn hollol annerbyniol. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarn ac yn drylwyr i bob achos o fwlio. Gwnaiff yr ysgol bob ymdrech hefyd i sicrhau nad yw bwlio yn digwydd. Mae gan yr ysgol Bolisi Gwrth-fwlio a weithredir yn gadarn a sensitif ym mhob achos o fwlio a ddaw i'n sylw. Os oes unrhyw amheuaeth bod plentyn yn cael ei fwlio yn yr ysgol, gofynwn yn daer i'r rhiant neu'r gwarchodwr drafod hyn gyda'r Pennaeth fel y gallwn ymchwilio i'r amheuon yn drylwyr ac yn sydyn iawn.

3. AMCANION CYFFREDINOL YR YSGOL

Amcanion cyffredinol yr ysgol yw:

1. Creu dinasyddion ifanc dwyieithog, cyflawn.

2. Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.
3. Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei chynorthwyo a'i gynorthwyo i addasu i fyd sy'n newid yn gyflym.
4. Creu ymhob plentyn yr awydd a'r chwilfrydedd i ymchwilio ac i geisio rhagor o wybodaeth a phrofiadau a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
5. Datblygu sensitifrwydd yn y plentyn, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.
6. Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw yn annibynol a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
7. Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
8. Cyflwyno syniadau a chysyniadau (a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig) sy'n hawlio ymateb y plentyn.



4. YR YSGOL A'R CARTREF

4.1 CYTUNDEB RHWNG YR YSGOL A'R CARTREF

Mae gofyn i bob ysgol fod â Chytundeb rhwng Y Cartref a'r Ysgol. Mabwysiadwyd y cytundeb canlynol gan y Corff Llywodraethol:

O safbwynt yr ysgol:

- Bydd yr ysgol yn sicrhau y darperir rhaglen addysgu eang a chytbwys, sy'n cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod pob disgybl yn gweithio hyd eithaf ei allu.
- Gwneir pob ymdrech i baratoi amgylchedd diogel, ysgogus a gofalgar i bob disgybl.
- Bydd yr ysgol yn darparu gwaith cartref rheolaidd yn dibynnu ar oedran y disgyblion.
- Bydd yr ysgol yn:
 - darparu gwybodaeth reolaidd i'r rhieni / y gwarcheidwaid.
 - darparu gwybodaeth am ddatblygiad eu plentyn.
 - cysylltu ar fyrder ynghylch unrhyw bryderon.
- Bydd yr ysgol yn rhoi sylw teilwng a phrydlon i unrhyw bryder sydd gan rieni.

O safbwynt rhieni/gwarcheidwaid:

Disgwylir i rieni/gwarcheidwaid:

- Roi pob cymorth a chefnogaeth i'r plentyn gyda'i addysg.

- Gefnogi unrhyw weithgareddau a osodir gan yr ysgol gan gynnwys gwaith cartref.
- Fynychu nosweithiau rhieni a chyfarfodydd sydd wedi'u trefnu ar gyfer trafod datblygiad disgyblion.
- Sicrhau bod y plentyn yn dod i'r ysgol yn brydlon ac yn rheoliadd.
- Sicrhau bod y plentyn yn cydymffurfio â pholisi ymddygiad yr ysgol.
- Annog y plentyn i feithrin hunan barch a pharch at eraill.
- Gysylltu a'r ysgol ar unwaith mewn unrhyw achos o absenoldeb.
- Gofynnir i'r rhieni ddarparu enwau, cyfeiriad a'u rhifau ffôn, rhag ofn y bydd angen cysylltu â hwy yn ystod oriau ysgol e.e. mewn achos o salwch neu pe gyfyd damwain. Os ydi'r plentyn yn absennol, gofynnir i rieni ffonio'r ysgol i adael inni wybod mewn da bryd.

4.2 GWAITH CARTREF

Mae gennym bolisi gwaith cartref a disgwyliadau i bob blwyddyn fel â ganlyn:

Derbyn, Bl 1 a Bl 2


- O bryd i'w gilydd, gosodir tasgau arbennig gan yr athrawes. Fel arfer, bydd y tasgau'n ymwneud â'r thema sy'n cael ei hastudio yn yr ysgol.
- Weithiau, fodd bynnag, gall yr athrawes osod gwaith unigol er mwyn meistrolï neu ymarfer sgil arbennig.
- Disgwylir i ddisgyblion yn yr oedran yma ddarllen yn rheolaidd yn ôl eu gallu.

Blwyddyn 3 a 4

- Gosodir gwaith cartref rheoliadd i'r disgyblion hyn ar ddydd Gwener. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau a'i ddychwelyd i'r ysgol y dydd Mercher canlynol: Mathemateg ac iaith yn bennaf.
- Disgwylir i'r holl ddisgyblion yn y dosbarthiadau hyn ddarllen yn rheolaidd.
- Ni ddisgwylir i'r disgyblion dreulio mwy nag 20 munud y noson ar Waith Cartref.

Blwyddyn 5 a 6

- Gosodir gwaith cartref rheoliadd i'r disgyblion hyn ar ddydd Gwener. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau a'i ddychwelyd i'r ysgol y dydd Mercher canlynol. Mathemateg ac iaith yn bennaf.
- Disgwylir i'r holl ddisgyblion o'r oedran yma ddarllen yn rheolaidd a mynd dros eu tablau.
- Darperir llyfr gyda disgrifiad o'r gwaith cartref a gofynnir i'r rhieni lofnodi bod y plentyn wedi cwblhau'r dasg.



CYNLLUN ENCOMPAS

Gan gyd-weithio hefo heddlu Gogledd Cymru, mae Ysgol Bro Dyfrdwy yn dilyn menter cenedlaethol encompas er mwyn cefnogi disgyblion sydd wedi bod yn dyst i unrhyw gam-drin domestig. Mae Encompas yn anelu i sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o unrhyw achosion, a digwyddiadau mor fuan â phosib er mwyn sicrhau digon o gefnogaeth i'r disgybl yn syth bin. Mae'r fenter yn ddefnyddiol dros ben, ac yn ein galluogi i gefnogi ein disgyblion. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar eu gwefan:

<https://www.operationencompass.org/>

5. Y DREFN GWYNO

5.1 CWYNO AM Y CWRICWLWM

Mae'r AALL, yn unol â gofynion statudol, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi'i hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a Saesneg sydd ar gael i unrhyw riant sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol.

Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac yn effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol oddieithr i achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth.

Atgoffir rhieni ei bod hi'n bosibl gweld copiau o unrhyw offeryn statudol a chylchlythyron a anfonir i ysgolion gan y Swyddfa Gymreig ynghylch pwerau a dyletswyddau cyrff llywodraethu o dan Bennod 1 Rhan 1 Deddf Diwygio Addysg.

5.2. CWYNO AM Y CORFF LLYWODRAETHU

Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael eu rheoli gan Gylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif:03/2004.

- Os oes unrhyw un am wneud cwyn swyddogol yn erbyn aelod o'r staff, dylid gwneud hynny'n ysgrifenedig i'r Pennaeth.
- Os oes unrhyw un am wneud cwyn swyddogol yn erbyn y Pennaeth, dylid gwneud y gŵyn yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Corff Llywodraethol.

- Os oes unrhyw un am wneud cwyn swyddogol yn erbyn aelod o'r Corff Llywodraethol dylid gwneud hynny'n ysgrifenedig i Gadeirydd y Corff Llywodraethol neu'r Is- Gadeirydd os yw'r gŵyn yn erbyn y Cadeirydd.

6. CYNNWYS A THREFNIADAETH Y POLISI ADDYSG RHYW

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol a gyhoeddwyd gan Awdurdod Cymwystaerau Cwricwlwm ac asesu Cymru yn 2000, a diweddariad 2008 a gymeradwyd gan Gynulliad Cymru, i'w ddefnyddio mewn ysgolion, ac sy'n paratoi cwricwlwm sy'n diwallu canlyniadau dysgu Agwedd am Ryw yn y pedwar Cyfnod allweddol.

Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- dysgu am gylched bywyd
- cadw'r disgyblion yn ddiogel trwy eu cynorthwyo i adnabod ac ymateb i ymddygiad annerbyniol gan oedolion a phlant eraill
- cynorthwyo'r disgyblion i ddod yn ymwybodol o wahanol sefyllfaoedd bywyd gan bwysleisio pwysigrwydd moesoldeb
- cynorthwyo'r disgyblion i siarad am faterion sy'n ymwneud â'r corff heb embaras
- darparu gwybodaeth am:
 - berthynas gariadus*
 - enwau rhannau'r corff*
 - cyffyrddiad priodol ac amhriodol*
 - newidiadau glasged*
 - tyfiant babi yn y groth a genediagaeth*
 - anghenion babanod a chyfrifoldebau rhieni*
- cychwyn parato'r disgyblion am y penderfyniadau y byddant yn eu gwneud yn y dyfodol a'r
 - profiadau y maent yn debyg o'u hwynebu*
- cynorthwyo'r disgyblion i addasu i newidiadau yn y teulu
- cynorthwyo'r disgyblion i ddeall eu teimladau nhw eu hunain a theimladau pobl eraill
- dysgu'r disgyblion i barchu eu hunain ac eraill

Atgoffir rhieni y gallant dynnu eu plant yn ôl o'r cyfan neu ran o'r addysg rhyw a ddarperir.

7. ADDYSG GREFYDDOL A CHYDADDOLI

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol neu ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol. Mae'r addysg grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod Addysg. Gellir archwilio copi o'r maes llafur hwn yn yr ysgol.

Mae cyd-addoliad yn digwydd yn ddyddiol boed fel ysgol gyfan neu fesul dosbarth. Bydd y gwasanaethau hyn yn Gristionogol yn bennaf, ond tynnir sylw at gredöau eraill o bryd i'w gilydd.

Gellir gwneud trefniadau ar gyfer y plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasanaethau crefyddol neu astudiaethau cyffelyb.

8. ETHOS A GWERTHOEDD

8.1 AMCANION

Mae a wnelo addysg yn bennaf ag unigolion, a rhaid felly gofalu fod y plentyn unigol yn cael cyfle i ddatblygu yn ôl ei allu a'i oed, mae hyn yn cynnwys meithrin doniau, sgiliau a diddordebau arbennig. Ond nid yw pwysleisio'r unigolyn yn ddigonol gan fod pawb ohonom yn rhan o gymdeithas ac yn rhan o genedl ehangach, ac mae i'r gymdeithas a'r genedl eu gofynion, eu dyheadau a'u diwylliant unigryw sy'n llywio rhywfaint ar amcanion yr addysg a gynigir.

Gellir nodi amcanion yr ysgol fel a ganlyn:

- 1) Creu dinasydd ifanc cyflawn.
- 2) Creu amgylchiadau ffafriol ar gyfer datblygiad llawn y plentyn fel unigolyn sy'n tyfu'n iach, yn datblygu'n gorfforol ac yn feddyliol ac yn datblygu'n gymdeithasol, yn ysbrydol, yn ddeallusol ac yn foesol.
- 3) Meithrin hunan-ddisgyblaeth, hunan-barch a hunan-hyder y plant.
- 4) Darparu cyfle llawn i blant ddatblygu eu doniau, eu talentau a'u diddordebau ac i ddod i adnabod eu hunain: eu gwendidiau a'u cryfderau.
- 5) Datblygu sgiliau plant ar draws ystod eang o feysydd, gan gynnwys sgiliau hamdden.
- 6) Creu yn yr ysgol amgylchedd fydd yn symbylu gwerthfawrogiad o'r cain a'r prydfferth.
- 7) Meithrin yn y plant falchder at eu bro eu gwlad a'r blaned gron a dablygu ynddynt barch at y byd y maent yn byw ynddo.
- 8) Meithrin yn y plant sensitifrwydd yn eu perthynas ag eraill drwy sicrhau eu bônt yn deall natur eu cymeithas, yn gwybod am hawliau pobl eraill a'u cyfrifoldebau eu hunain, yn parchu eu cyd-ddinasyddion ac yn sylweddoli eu gwerth a'u lle yn y gymdeithas honno a phwysigrwydd y cyfraniad personol sydd ganddynt iddi hi.
- 9) Creu sefydliad a fydd yn gallu gweithredu amcanion cyffredinol yr Awdurdod addysg a chyflawni gofynion statudol ac anstatudol y Cwricwlwm Cenedlaethol.

8.2 CYNLLUNIAU AR WAITH

8.2.1 YSGOL IACH

Mae Ysgol Bro Dyfrdwy yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach Sir Ddinbych ac wedi cyrraedd Cam 6 ar y raddfa honno.

Prif amcanion y cynllun yw:

- datblygu agwedd gadarnhaol ysgol-gyfan at fwyd a maeth a sicrhau bod bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo
- datblygu'r ysgol fel man gwaith sy'n hyrwyddol iechyd cymdeithasol, corfforol ac emosiynol pob aelod o staff
- atgyfnerthu hunan werth a hyrwyddo iechyd meddwl yr holl ddisgyblion
- sicrhau cynlluniau tymor hir sy'n rhoi cyfle i bob disgybl gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn gyson
- sicrhau bod yr ysgol gyfan yn amgylchedd di-fwg, sy'n pwysleisio manteision peidio ysmegu
- sicrhau fod gan yr ysgol Bolisi Atal Cyffuriau a gefnogir gan raglen addysg ar gyffuriau ac alcohol
- i ddangos ymrywiad yr ysgol i Addysg Rhyw a Pherthnasedd drwy weithredu ein Polisi a rhaglen addysg.



8.2.2 YSGOL ECO

Er gwybodaeth: mae'r ysgol wedi derbyn y wobwr platinwm ers Gorffennaf 2018.

Oherwydd ein polisiau ynglyn â parch at ein cyd-ddinasyddion a'n planed, pwysleiswn yr angen i fod yn eco-gyfeillgar. Mae hyn yn cynnwys:

- ail-gylchu papur, adnoddau, dillad a catris argraffu
- creu compost o wastraff bwyd bore
- addysgu'r disgyblion i blannu eu cynnyrch gardd eu hunain
- casglu sbwriel
- monitro'r defnydd o drydan a nwy



8.2.3 MASNACH DEG

Dyfarnwyd y wobr Ysgol Masnach Deg i Ysgol Bro Dyfrdwy yn Ionawr 2015.

Ein nod ydy addysgu'r disgyblion bod cynhyrchwyr yn haeaddu pris teg am eu cynnyrch. Gwneir hyn drwy:

- bwysleisio'r pwysigrwydd o brynu cynnyrch lleol
- bwysleisio bod cynnyrch Masnach Deg i'w cael mewn siopau a bod eu prynu yn sicrhau gwell amodau byw i'r cynhyrchwyr
- ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg yn yr ysgol pan fyddwn yn gallu e.e coginio yn y dosbarthiadau, ffrywthau bore, bore goffi gan ddefnyddio cynnyrch Masnach deg, stondin Masnach Deg yn y ffair a.y.b.
- dynnu sylw rhieni a'r gymuned leol at gynnyrch Masnach Deg
- weithgarwch ein bwrdd hysbysu Masnach Deg yn yr ysgol

9. GOFAL BUGEILIOL

Mae Ysgol Bro Dyfrdwy yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybledig, yn gyfrifol ac i barchu eraill. Mae cefnogaeth rhieni yn hanfodol yn hyn o beth.

9.1 Y CYNGOR YSGOL

Yn unol â Chanllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae gan yr ysgol Gyngor Ysgol. Cynhelir cyfarfod o'r cyngor oddeutu 6 gwaith yn ystod y flwyddyn addysgol. Croesawn hyn fel modd o roi llais i'r disgyblion ym mywyd yr ysgol.

9.2 CYDRADDOLDEB HILIOL

Ceir polisi Cydraddoldeb Hiliol yn yr ysgol. Cysylltwch â'r Pennaeth os yr hoffech ei weld.

9.3 DISGYBLAETH

Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn dderbynniol ac fel aelod o gymdeithas o fewn yr ysgol. Fe'u hanogir i ystyried ac i barchu hawliau ac eiddo pobl eraill. Mae'r ysgol yn ymwneud ar stratagaethau Webster Stratton i hybu ymddygiad da.

Ceir polisi Disgyblaeth yn yr ysgol. Cysylltwch â'r Pennaeth os yr hoffech ei weld.

9.4 CYSWLLT Â'R CARTREF

Gweler hefyd Adran 4: Yr Ysgol a'r Cartref.

Ni all yr ysgol lwyddo heb gefnogaeth y rhieni. Rydym felly yn annog y rhieni i ymddiddori yn addysg eu plentyn ac i fod yn gefn i'r ysgol yn eu gwaith a'u gweithgareddau gyhoeddus.

Y GYMDEITHAS RHINI AC ATHRAWON

Rydym yn ffodus o gael criw o rieni sydd yn trefnu gweithgareddau arbennig er mwyn codi arian i'r ysgol. Bydd yr arian a gesglir yn cael ei gyfrannu at leihau costau tripiâu ysgol, a phrynu adnoddau addysgol. Mae croeso cynnes i bob rhiant ymuno â'r cyfarfodydd. Mi fyddwn yn eich hysbysu am gyfarfodydd a gweithgareddau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon drwy Clecs.

9.5 IECHYD A DIOGELWCH

Dilynwn bolisi Iechyd a Diogelwch y Sir ac anelwn i sicrhau safon uchel o iechyd a diogelwch i'r staff, disgyblion ac ymwelwyr, gyda amgylchfyd iach a diogel drwy'r ysgol. Arolygir y trefniadau iechyd a diogelwch yn gyson. Gwneir asesiadau risg yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol. Rydym yn rhan o bolisi Yswiriant Sir Ddinbych ar gyfer damweiniau ar y safle ac i ffwrdd onhono.

Mae system ddiogelwch mewn grym yn yr ysgol sy'n cydymffurfio â'r rheolau tân. Rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch cyn cael mynediad i'r brif fynedfa. Mae'n orfodol i ymwelwyr arwyddo i mewn wrth gyrraedd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol system larwm lladron, a chamerau CCTV, a cheir ymarferion tân yn dymhorol. Mae aelodau'r staff bob amser ar ddyletswydd ben bore, amser chwarae a diwedd y pwnn ac mae goruchwyliaeth yn ystod amser cinio yn ogystal. Cofnodir unrhyw ddamweiniau ar system rhynggrwyd mewnol y Sir, ac mi fyddwn yn eich hysbysu chi fel rhieni. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â chyflwr plentyn ar ôl damwain, gyrrwn am y rhieni neu mewn achos o frys ffonio am ambiwlans.

9.6 MEDDYGOL

Nid ydym fel ysgol fel arfer yn rhoi ffisig i ddisgyblion yn yr ysgol. Eithriadau i hyn yw:

- pwmp asthma
- unrhyw feddyginiaeth angenrheidiol
- ffisig gwrthfotig pan fo'n gofyn

Os bydd gofyn i ni roi meddyginiaeth gwbl angenrheidiol i'r plentyn, mae'n ofynnol i'r ysgol greu CYNLLUN GOFAL IECHYD UNIGOL AR GYFER DISGYBL GYDAG ANGHENION MEDDYGOL. Bydd hwn yn cael ei lunio ar y cyd rhwng rhieni, gwarcheidwaid, nyrs ysgol ac athrawon yr ysgol.

Os oes angen i athrawon roi ffisig gwrthfotig gofynnir i rieni neu warcheidwaid arwyddo llythyr yn rhoi caniatâd inni wneud hynny. Ni ddylai disgyblion ar unrhyw gyfrif gymryd unrhyw ffisig eu hunain oni bai bod hynny wedi ei nodi yn y CYNLLUN GOFAL IECHYD UNIGOL.

Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni, yna os bydd angen, awn â'r plentyn i'r feddygfa yng Nghorwen.

Yn anaml iawn ceir damweiniau difrifol mewn ysgol, ond os digwydd hyn bydd yn rhaid i'r Pennaeth cael nifer o ffeithiau angenrheidiol fel:

1. enw'r meddyg
2. rhif ffôn y meddyg
3. rhif ffôn y cartref neu gymydog

Gofynir i'r rhieni, felly, i sicrhau fod y ffurflenni Gwybodaeth Rhieni wedi eu llenwi'n gywir.

9.7 GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Mae'r ysgol yn cynnig gwersi Cerddoriaeth Offerynnol drymiau, piano, ffidil neu llais. Bydd yr offerynnau ar fenthyg i'r disgyblion am ddim ond codir tâl am y gwersi hyn yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg a deddf gwlad.

9.8 YMWELIADAU ALLGYRSIOL

Bydd Ysgol Bro Dyfrdwy yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd gan gystadlu yn yr Eisteddfod ac yn y cystadlaethau chwaraeon a choginio.

Byddwn yn trefnu ymweliadau addysgol yn rheolaidd fel ffordd o atgyfnerthu'r hyn a ddysgir yn y dosbarth. Bydd yr ymweliadau yn ymwneud â gwahanol feysydd o'r cwricwlwm fel ymweliad â'r Oriel Gelf, yr amgueddfa, adeiladau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a.y.b.

Fel arfer trefnir ymweliad preswyl addysgol i ganolfannau gwahanol megis Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog, Caerdydd neu Lan-llyn i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn flynyddol.

Trefnir teithiau blynyddol i'r holl ddosbarthiadau yn ystod Tymor yr Haf.

9.9 ADDYSG GORFFOROL

Mae gennym weledigaeth amlwg yng nghymuned yr ysgol i sicrhau ein bod yn ysbrydoli'r holl blant i ddilyn ffordd gytbwys, iach ac actif o fyw yn yr ysgol a thu hwnt ac yn y tymor hir. Darperir gweithgareddau sy'n rhoi mwynhad i'r disgyblion wrth ddiwallu eu anghenion creadigol. Byddwn yn dysgu a darparu cyfle i ymarfer a gwella ar y sgiliau sy'n berthnasol i'r weithgaredd. Ceisir, yn ogystal, hybu hyder drwy weithgaredd a chreu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer. Bwriadwn i Addysg Gorfforol fod yn fwynhad pur fel y bydd y disgyblion yn ymddiddori ac yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol amrywiol.

Mae'r ysgol yn hyfforddi'r plant mewn amryw o weithgareddau gan gynnwys: gymnasteg, dawns, gemau, nofio, athletau a gweithgareddau antur.

Yn y Cyfnod Sylfaen mae pob disgybl yn cael 1 awr yr wythnos o wersi Addysg Gorfforol. Erbyn Cyfnod Allweddol 2 mae'r plant yn treulio o leiaf 1½ awr yr wythnos mewn gwersi Addysg Gorfforol.

Mae gan yr ysgol dimau sy'n rhoi cyfle i'r plentyn gystadlu yn unigol ac fel aelod o dîm.

Mae'r timau'n cynnwys:

- Timau pêl-droed, (merched a bechgyn) sy'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd, Chwaraeon Sirol, Cynghrair Lleol, Ysgol Uwchradd Dinas Brân.
- Tîm rygbi.
- Tîm criced sy'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd a chystadlaethau dalgylchol.
- Tîm nofio sy'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd a Gala Nofio'r Dalgylch.
- Tîm rhedeg traws-gwlad sy'n cystadlu ym mhencampwriaethau'r Urdd a chystadlaethau dalgylchol a chystadlaethau a drefnir gan Ysgol Dinas Brân.



10. GWISG YSGOL

Mae'r ysgol, wedi ymgynghori â'r rhieni, wedi penderfynu cael gwisg ysgol ffurfiol a disgwylir i bawb ei gwisgo. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Crys polo gwyn.
- Crys chwys piws gyda logo'r ysgol arno.
- Trowsus neu sgert du.
- Esgidiau du i fechgyn a merched.

Yn yr Haf gall merched ddewis gwisgo ffrog, a'r plant i ddewis siorts du.

Gellir prynu'r gwisg ysgol yn **Worksafe, Workplace, Rhuthun** neu **Brodwaith, Pentrefoelas**.

- Ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol, gofynnir i'r disgyblion wisgo crys T gwyn plaen, siorts du a pypms neu trainers a gwisg nofio ar gyfer y gwersi nofio.
- Er mwyn hwylustod, labelwch y dillad yn glir os gwelwch yn dda yn enwedig y siwmperi.





11. DEFNYDDIO'R GYMRAEG A'R SAESNEG

Credwn fod gan holl blant yr ysgol hon yr hawl i dyfu'n ddinasyddion dwyieithog. Parchwn famiaith y disgybl a cheisiwn eu hannog i ddatblygu eu hyfedredd yn eu hail iaith, boed honno'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Yn y Cyfnod Sylfaen rhoddir sylfaen gadarn Gymraeg er mwyn galluogi'r plentyn i gyrraedd y nod o fod yn berson dwyieithog, llawn. Ceisiwn gadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o gartref di-Gymraeg. Yn ogystal a hyn, ceisiwn ymestyn a datblygu gafaél y plentyn o gartref Saesneg ar y Gymraeg.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 ceisiwn gadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn fel eu bônt yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhugl ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan yn trosglwyddo i'r ysgol Uwchradd.

Y Gymraeg yw iaith gyfathrebol yr ysgol hon.

Fe'i defnyddir:

- *Yng ngweinyddiad dyddiol yr ysgol.*
- *Fel yr iaith achlysurol y tu allan i'r sesiynau dysgu*
- *Fel iaith gwasanaethau boreol a chynulladau torfol*

Y Gymraeg fydd prif gyfrwng dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Sicrhawn fod pob plentyn yn gwbwl ddwyieithog erbyn diwedd Blwyddyn 6.

12. CYFLEOEDD CYFARTAL

Ymdrechir i roi cyfle cyfartal i bob disgybl, athrawes, athro a'r staff ategol ar bob adeg heb wahaniaethu ar sail rhyw, crefydd, lliw, iaith nac anabledd.

Gweler Polisi Cynllun Cydraddoldeb yr ysgol, ar gael gan y Pennaeth.

13. DISGYBLION AG ANABLEDDAU A'R CYNLLUN HYGRCHEDD

Croesawir plant gydag anableddau gyda breichiau agored i'r ysgol. Mae cynllun hygyrchedd ac anabledd yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion a rhieni sydd ag anableddau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yr ysgol. Cysyllter â'r Pennaeth am ragor o fanylion. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol hon.

GWASANAETHAU CEFNOGOL

Bydd y nyrs a'r deintydd yn ymweld â'r ysgol yn achlysurol. Gellir cael sgwrs â Sian Hughes, sef nyrs yr ysgol yn Ysgol Dinas Bran, Llangollen ar unrhyw adeg drwy ei ffonio.

Gellir cyfeirio plentyn i sylw'r Therapydd Lleferydd ar gais y Pennaeth. Gofynnir yn garedig i'r rhieni hysbysu'r ysgol am unrhyw anabledd a all amharu ar ddatblygiad y plentyn.

14. TROSLWYDDO I'R YSGOL UWCHRADD

Wedi iddynt gyrraedd 11 oed bydd disgyblion yr ysgol hon yn trosglwyddo i naill a'i Ysgol Dinas Brân, Llangollen, neu Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala.

Er mwyn sicrhau bod y trosglwyddiad o'r ysgol gynradd i'r uwchradd yn un mor llyfn a hwylus â phosibl, gwneir y trefniadau canlynol:

- Bydd disgyblion Blwyddyn 6 a'u rhieni yn cael gwahoddiad i noson agored yn yr ysgol uwchradd yn ystod Tymor yr Hydref i gwrdd â'r athrawon a'r disgyblion.
- Bydd yr athro/wes sy'n gyfrifol am Flwyddyn 7 yn ymweld â'r ysgolion cynradd yn y dalgylch i siarad efo'r disgyblion a'u rhieni/gwarcheidwaid a cheisio ateb unrhyw gwestiwn sy'n codi.
- Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn treulio ychydig o ddyddiau yn yr ysgol Uwchradd yn ystod Tymor yr Haf.

15. PRESENOLDEB

Targed yr ysgol ydy 95%

RHEOLAU A CHANLLAWIAU

1. Ymweld â'r Ysgol a thrafod materion personol:

Dylid cysylltu gyda'r Pennaeth yn gyntaf ymhob achos.

2. Absenoldebau:

Mae rheolau Cynulliad Cymru yn mynnu fod yn rhaid i bob ysgol gofnodi unrhyw absenoldebau di-reswm fel absenoldeb heb awdurdod. Gwerthfawrogir yn fawr pe baech yn rhoi galwad ffôn os na

fydd eich plentyn /plant yn dod i'r ysgol y diwrnod hwnnw waeth beth fo'r rheswm. Mae hynny'n ein galluogi ni i wybod fod eich plentyn/plant yn ddiogel.

3. Diogelwch:

Ni chaniateir i blentyn fynd y tu allan i derfynau'r ysgol yn ystod oriau'r ysgol heb ganiatâd gan yr athrawon.

4. Gwisg ysgol:

Disgwylir i bob plentyn wisgo gwisg swyddogol yr ysgol: sef crys polo gwyn, crys chwys piws ynghyd â throwsus neu sgert ddu ac esgidiau du.

5. Eiddo Personol:

- (a) Disgwylir i bob plentyn ddod â dillad ar gyfer addysg gorfforol, sef crys-T gwyn, siorts du a trenars neu bymps.
- (b) Disgwylir i rieni ofalu bod enwau'r plant ar eu dillad.
- (c) Disgwylir i blant ddod â bag i ddal dillad addysg gorfforol.
- (ch) Cyfrifoldeb y plentyn ei hun yw unrhyw degan a ddaw i'r ysgol.
- (d) Ni chaniateir i blant ddod â thegan a all fod yn beryglus.

6. Cinio ysgol

Darperir cinio ysgol yn ddyddiol. Cost y cinio ydy £2.20 y diwrnod. Telir arian cinio drwy Parent Pay.

Mae llaeth ar gael yn rhad ac am ddim yn ystod y bore i blant y Cyfnod Sylfaen.

Rhoddir caniatâd i'r plentyn ddod â brechdanau. Dylid rhoi diodydd mewn potel blastig; ni chaniateir poteli gwydr oherwydd yr elfen o ddiogelwch.

7. Ni chaniateir 'gwm cnoi' na fferins yn yr ysgol.

8. Mynd adref o'r ysgol:

- (a) Os oes oedolyn gwahanol i'r arfer yn dod i gasglu'r plentyn o'r ysgol dylid rhoi gwybodaeth am hynny i'r ysgol gan rieni neu warcheidwad y plentyn.
- (b) Ni chaniateir i blentyn fynd adref o'r ysgol gyda ffrind heb wybodaeth ymlaen llaw gan rieni neu warcheidwad.
- (c) Os yw rhiant neu warcheidwad yn rhagweld y bydd yn hwyr yn casglu ei blentyn o'r ysgol disgwylir iddo rybuddio'r ysgol o'r posibilrwydd hwnnw.

9. Ni chaniateir car i mewn i dir yr ysgol heb ganiatâd y Pennaeth.

10. Atgoffir y rhieni mai'r amser statudol ar gyfer goruchwyllo plant yw 10 munud cyn i'r ysgol gychwyn yn y bore (8.50 y.b.) a 10 munud wedi i'r ysgol gau (3.25 y.p.)

11. Tywydd garw.

Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor. Os mewn amheuaeth cadwch y plentyn adref neu ffoniwch yr ysgol. Weithiau bydd angen anfon y plant gartref yn gynnar ond byddwn yn ffonio'r cartref yn gyntaf. Weithiau bydd y cwmni tacsï'n ffonio'r ysgol i ddweud a fyddant yn cludo'r plant adref yn gynnar oherwydd tywydd drwg neu ffordd beryglus.

12. Ffurflen Cais am Wyliau.

Gwyliau Teuluol a gymerir Adeg Tymor.

Fel arfer, ni ddylai rhieni/gwarcheidwaid gymryd disgyblion o'r ysgol ar wyliau yn ystod y tymor, a pholisi Awdurdod Addysg Sir Ddinbych yw eu hannog i beidio â gwneud hyn.

Yn ôl Rheoliadau Presenoldeb Ysgol (Cofrestru Disgyblion, 1995), mae gan ysgolion yr hawl ddewisiol i ganiatáu gwyliau teuluol blynyddol yn ystod y tymor, yn unig pan fo "amgylchiadau arbennig" yn codi a dylid cyflwyno cais ar bapur ymlaen llaw gan y rhiant/gwarcheidwad sy'n byw gyda'r plentyn fel arfer.

Dim ond y Pennaeth all ganiatáu absenoldebau o'r math hwn. Dylid nodi mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir caniatáu absenoldeb o fewn unrhyw flwyddyn ysgol.

Os cymer y rhieni eu plentyn i ffwrdd o'r ysgol ar wyliau heb ganiatad cytunedig, ysgrifenedig gan y Pennaeth, yna bydd yr absenoldebau hyn yn rhai anawdurdodedig a chânt eu hadrodd yn ôl i'r Awdurdod Addysg Leol.

**OS OES GENNYCH UNRHYW BRYDERON AM ADDYSG
EICH PLENTYN, YNA CYSYLLTWCH Â MI AR UNWAITH.**

Ôl-nodyn neu ddau:

Enw gwrywaidd ydy "plentyn" yn y Gymraeg ("y plentyn hwn") ac mae'n cyfeiro at fachgen neu ferch fel ei gilydd.

Mae pob cyfeiriad at "riant" hefyd yn cyfeirio at "warchodwr", ac fel arall.

